



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 1598 (Cy. 197)

2015 No. 1598 (W. 197)

**CYNLLUNIO GWLAD A
THREF, CYMRU**

**TOWN AND COUNTRY
PLANNING, WALES**

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a
Thref (Cynllun Datblygu Lleol)
(Cymru) (Diwygio) 2015**

**The Town and Country Planning
(Local Development Plan) (Wales)
(Amendment) Regulations 2015**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) (“Y Ddeddf”) yn darparu ar gyfer system o gynlluniau datblygu lleol (“CDLI”) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/2839) (“Rheoliadau 2005”) sydd yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â gweithredu'r system honno.

Mae'r prif newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn fel a ganlyn.

Mae rheoliad 2(2)(h)(i) yn mewnosod diffiniad o gofrestr safleoedd ymgeisiol ac mae rheoliad 2(2)(h)(iii) yn mewnosod diffiniad o adroddiad adolygu fel y gellir cynnwys y ddau yn y diffiniad o ddogfennau CDLI (fel y'i diwygiwyd gan reoliad 2(2)(d)). Mae'n ofynnol sicrhau bod y rhain ar gael o dan reoliad 17 a rheoliad 26B (adnewo cynigion).

Mae rheoliad 2(2)(g)(ii) yn diwygio'r diffiniad o “cyrff ymgynghori penodol” i ychwanegu Network Rail Infrastructure Limited at y rhestr o gyrff y mae'n rhaid ymgynghori â hwy o dan reoliadau 14 a 26A.

Effaith rheoliad 2(3) yw nad oes unrhyw ofyniad i ymgysylltu ag ymgynghoreion wrth baratoi cynllun cynnwys cymunedau nac amserlen pan fo'r dogfennau hynny'n ymwneud ag adolygu CDLI.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Part 6 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (c. 5) (“the Act”) provides for a system of local development plans (“LDPs”) in Wales.

These Regulations amend the Town and Country Planning (Local Development Plan) (Wales) Regulations 2005 (S.I. 2005/2839) (“the 2005 Regulations”) which make provision in connection with the operation of that system.

The main changes made by these Regulations are as follows.

Regulation 0 inserts a definition of a candidate sites register and regulation 0 inserts a definition of a review report so that both can be included in the definition of LDP documents (as amended by regulation 2(2)(d)). These are required to be made available under regulation 17 and regulation 26B (deposit of proposals).

Regulation 2(2)(g)(ii) amends the definition of “specific consultation bodies” to add Network Rail Infrastructure Limited to the list of bodies who must be consulted under regulations 14 and 26A.

The effect of regulation 2(3) is that there is no requirement to engage consultees in the preparation of a community involvement scheme nor a timetable where those documents relate to a revision of an LDP.

Mae rheoliad 2(5)(c) yn mewnosod gofyniad i'r awdurdod cynllunio lleol ("ACLI") hysbysu rhai ymgynghoreion cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i adolygiad i gytundeb cyflawni gael ei gytuno neu pan y bernir iddo gael ei gytuno.

Mae rheoliad 2(5)(d) yn rhagnodi'r amgylchiadau pan nad oes angen i'r ACLI gydymffurfio â gofynion y cynllun cynnwys cymunedau.

Mae rheoliad 2(7) yn gwneud newidiadau i'r wybodaeth sy'n ofynnol yn isdeitl y CDLI.

Mae rheoliad 2(8) yn ychwanegu unrhyw gynllun morol a baratowyd gan Weinidogion Cymru at y rhestr o faterion y mae'n rhaid i'r ACLI eu hystyried wrth ddarparu CDLI. Mae hyn yn ychwanegol i'r materion a bennwyd eisoes yn adrannau 39 a 62(5) o'r Ddeddf ac yn rheoliad 13. Hepgorir y cyfeiriad at gynlluniau gwastraff rhanbarthol anarferedig yn y rheoliad hwnnw hefyd.

Mae rheoliad 2(9) a 2(22) yn darparu ar gyfer gweithdrefn newydd ffurf fer ar gyfer adolygu CDLI. Rhaid defnyddio'r weithdrefn newydd pan nad yw'r materion dan sylw yn ddigon arwyddocaol i warantu'r weithdrefn lawn sydd hefyd yn gymwys wrth baratoi CDLI cychwynnol neu CDLI yn lle cynllun arall. Mae'r weithdrefn ffurf fer yn y Rhan 4A newydd i Reoliadau 2005. Yn hytrach na gofyn i gyrff statudol gyfranogi cyn-adneuo, y mae gofyniad i'r ACLI hysbysu'r cyrff hynny ynglŷn â phwnc adolygiad arfaethedig a'r adroddiad adolygu sy'n ei ragflaenu ac i wahodd sylwadau ynglŷn â'r hyn y dylid ei gynnwys mewn adolygiad. Nid oes gofyniad yn y weithdrefn ffurf fer i'r ACLI gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn-adneuo.

Mae rheoliad 2(10) yn ei gwneud yn ofynnol i ACLI alw am safleoedd ymgeisiol y gellir eu hystyried i'w cynnwys yn y CDLI. Mae'n rhaid i ACLI hefyd gadw cofrestr o safleoedd ymgeisiol i gofnodi'r enwebiadau sy'n dod i law.

Mae rheoliad 2(12) yn mewnosod gofyniad i'r ACLI baratoi adroddiad o'r hysbysiadau a wnaed a'r sylwadau a gyflwynwyd o dan reoliadau 14 i 16. Yr adroddiad a ddiffinnir fel yr "adroddiad ymgynghori cychwynnol" yw hwn.

Mae rheoliad 2(16) yn dileu'r gweithdrefnau yn rheoliadau 20 a 21 o Reoliadau 2005 sy'n ymwneud yn benodol ag ymdrin â sylwadau ynglŷn â dyrannu safleoedd, fel yr ymdrinnir â'r sylwadau hynny yn yr un ffordd ag unrhyw sylwadau eraill.

Mae rheoliad 2(19)(c) yn gwneud darpariaeth bod CDLI a fabwysiadir neu a gymeradwyir yn disodli'r CDLI presennol yn awtomatig.

Regulation 2(5)(c) inserts a requirement for the local planning authority ("LPA") to notify certain consultees as soon as reasonably practicable after a revision to a delivery agreement is agreed or deemed to be agreed.

Regulation 2(5)(d) prescribes the circumstances in which the LPA need not comply with the requirements of the community involvement scheme.

Regulation 2(7) makes changes to the information required in the sub-title of the LDP.

Regulation 2(8) adds any marine plan prepared by the Welsh Ministers to the list of matters to which the LPA must have regard in preparing an LDP. This is in addition to the matters already specified in sections 39 and 62(5) of the Act and in regulation 13. The reference to obsolete regional waste plans in that regulation is also omitted.

Regulation 2(9) and 2(22) provide for a new short form procedure for revisions to LDPs. The new procedure is for use where the issues involved are not of sufficient significance to warrant the full procedure which also applies when preparing an initial or replacement LDP. The short form procedure is in a new Part 4A to the 2005 Regulations. Instead of pre-deposit participation involving statutory bodies there is a requirement on the LPA to notify such bodies of the subject of a proposed revision and the review report preceding it and to invite representations about what a revision should include. There is no requirement in the short form procedure on the LPA to conduct pre-deposit public consultation.

Regulation 2(10) requires LPAs to make a call for candidate sites which can be considered for inclusion in the LDP. LPAs must also compile a candidate sites register to reflect nominations received.

Regulation 2(12) inserts a requirement on the LPA to prepare a report of the notifications made and representations made under regulations 14 to 16. This is the report defined as the "initial consultation report".

Regulation 2(16) removes the procedures in regulations 20 and 21 of the 2005 Regulations relating specifically to handling site allocation representations, so that such representations are handled in the same way as any other representations.

Regulation 2(19)(c) makes provision so that where an LDP is adopted or approved it automatically supersedes the existing LDP.

Mae rheoliad 2(20) yn mewnosod rheoliad newydd 25A yn Rheoliadau 2005 i alluogi'r ACLI i fabwysiadu CDLI diwygiedig naill ai â diwygiadau fel y'u paratowyd neu fel y'u haddaswyd, yn dibynnu ar argymhelliad y person a benodwyd i gynnal yr archwiliad annibynnol o'r adolygiadau arfaethedig.

Mae rheoliad 2(24) yn diwygio rheoliad 30 o Reoliadau 2005 i ddarparu bod ACLI yn gyfrifol am baratoi arfarniad o gynaliadwyedd y CDLI neu'r adolygiad ohono, os nad yw eisoes wedi gwneud hynny, os yw Gweinidogion Cymru'n rhoi cyfarwyddyd o dan adran 65(4) o'r Ddeddf.

Mae rheoliad 2(29) yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i baratoi adroddiad adolygu cyn cynnal unrhyw adolygiad o CDLI. Caiff yr adroddiad hwnnw fod yr adroddiad adolygu llawn sy'n ofynnol o dan adran 69(2) o'r Ddeddf neu'n adroddiad o adolygiad dethol o ran (neu rannau) o'r CDLI. Gwneir mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol gan baragraffau eraill o reoliad 2, gan gynnwys hepgor pob gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i faterion drwy hysbysebu mewn papur newydd lleol.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol ac arbed.

Paratowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae copïau ar gael gan Lywodraeth Cymru yn: Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru: www.cymru.gov.uk.

Regulation 2(20) inserts a new regulation 25A in the 2005 Regulations to enable the LPA to adopt a revised LDP either with revisions as prepared or as modified, depending on the recommendation of the person appointed to carry out the independent examination of the proposed revisions.

Regulation 2(24) amends regulation 30 of the 2005 Regulations so that if the Welsh Ministers give a direction under section 65(4) of the Act, it is the LPA's responsibility to prepare an appraisal of the sustainability of the LDP or revision if it has not already done so.

Regulation 2(29) makes provision requiring a review report to be prepared before any revision of an LDP. Such a report may be the full review report required under section 69(2) of the Act or a report of a selective review of part (or parts) of the LDP. Minor and consequential amendments are made by other paragraphs of regulation 2, including omitting all requirements to publicise matters by advertisement in a local newspaper.

Regulation 3 makes transitional and saving provision.

A regulatory impact assessment has been prepared in relation to these Regulations. Copies are available from the Welsh Government at Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk.

2015 Rhif 1598 (Cy. 197)

**CYNLLUNIO GWLAD A
THREF, CYMRU**

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a
Thref (Cynllun Datblygu Lleol)
(Cymru) (Diwygio) 2015**

Gwnaed 3 Awst 2015

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 7 Awst 2015

Yn dod i rym 28 Awst 2015

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 62, 63, 69, 77 a 122 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004(1).

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015 a deuant i rym ar 28 Awst 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr “Rheoliadau 2005” (“the 2005 Regulations”) yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005(2); a

(b) mae unrhyw gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, oni nodir yn wahanol.

2015 No. 1598 (W. 197)

**TOWN AND COUNTRY
PLANNING, WALES**

**The Town and Country Planning
(Local Development Plan) (Wales)
(Amendment) Regulations 2015**

Made 3 August 2015

*Laid before the National Assembly for
Wales* 7 August 2015

Coming into force 28 August 2015

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by sections 62, 63, 69, 77 and 122 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004(1).

**Title, commencement, application and
interpretation**

1.—(1) The title of these Regulations is the Town and Country Planning (Local Development Plan) (Wales) (Amendment) Regulations 2015 and they come into force on 28 August 2015.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) In these Regulations—

(a) the “2005 Regulations” (“*Rheoliadau 2005*”) means The Town and Country Planning (Local Development Plan) (Wales) Regulations 2005(2); and

(b) any reference to a section is a reference to a section of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004, unless otherwise stated.

(1) 2004 p.5; rhoddwyd adran 62(5)(d) yn lle paragraffau (d) ac (e) gan adran 51(2) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a pharagraffau 4 a 5 o Atodlen 2 i'r Mesur hwnnw; rhoddwyd adran 51(2) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 2 i'r Mesur hwnnw yn lle adran 62(7).

(2) O.S. 2005/2839 (Cy. 203), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/971 (Cy. 141) ac O.S. 2013/755 (Cy. 90).

(1) 2004 c.5; section 62(5)(d) was substituted for paragraphs (d) and (e) by section 51(2) of, and paragraphs 4 and 5 of Schedule 2 to the Local Government (Wales) Measure 2009; section 62(7) was substituted by section 51(2) of, and paragraphs 4 and 6 of Schedule 2 to the Local Government (Wales) Measure 2009.

(2) S.I. 2005/2839 (W. 203), as amended by S.I. 2011/971 (W. 141) and S.I. 2013/755 (W. 90).

Diwygio Rheoliadau 2005

2.—(1) Diwygir Rheoliadau 2005 fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

- (a) hepgorer y diffiniad o “drwy hysbyseb leol” (“*by local advertisement*”);
- (b) yn y diffiniad o “materion adneuo” (“*deposit matters*”)—
 - (i) yn is-baragraff (b), yn lle “rheoliad 16(2)(a)”, rhodder “rheoliad 18 neu 26C”; a
 - (ii) yn is-baragraff (c), yn lle “rheoliad 18”, rhodder “rheoliad 18 neu 26C, yn ôl y digwydd”;
- (c) yn y diffiniad o “adroddiad ymgynghori cychwynnol” (“*initial consultation report*”), yn lle “16”, rhodder
“16A neu reoliad 26A(4), pa un bynnag sy’n ofynnol”;
- (d) yn y diffiniad o “dogfennau CDLI” (“*LDP documents*”), ar ôl paragraff (ch), mewnosoder—
 - “(d) unrhyw adroddiad adolygu perthnasol;
 - (dd) unrhyw gofrestr safleoedd ymgeisiol”;
- (e) yn y diffiniad o “dogfennau cynigion cyn-adneuo” (“*pre-deposit proposals documents*”), ar ôl “wedi’u hegluro”, mewnosoder “cofrestr y safleoedd ymgeisiol ac unrhyw adroddiad adolygu.”;
- (f) hepgorer y diffiniadau o “polisi dyrannu safle” (“*site allocation policy*”) a “sylw ar ddyraniad safle” (“*site allocation representation*”);
- (g) yn y diffiniad o “cyrff ymgynghori penodol” (“*specific consultation bodies*”)—
 - (i) yn lle “(i) i (viii)”, rhodder “(a) i (e)”; a
 - (ii) cyn paragraff (c) mewnosoder
“(b) Network Rail Infrastructure Limited.”;
- (h) yn y manau priodol yn nhrefn yr wyddor, rhodder—
 - “(i) ystyr “cofrestr y safleoedd ymgeisiol” (“*candidate sites register*”) yw’r rhestr o safleoedd a baratowyd yn unol â rheoliad 14(4) neu 26A(8).”
 - “(ii) ystyr “CDLI sydd wrthi’n ymddangos” (“*emerging LDP*”) yw—
 - (a) dogfen a gynigiwyd fel CDLI a roddwyd ar gael yn unol â rheoliadau 15, 17 neu 22(1);

Amendment of the 2005 Regulations

2.—(1) The 2005 Regulations are amended as follows.

(2) In regulation 2(1) (interpretation)—

- (a) omit the definition of “by local advertisement” (“*drwy hysbyseb leol*”);
- (b) in the definition of “deposit matters” (“*materion adneuo*”)—
 - (i) in sub-paragraph (b), for “regulation 16(2)(a)”, substitute “regulation 18 or 26C”; and
 - (ii) in sub-paragraph (c), for “regulation 18”, substitute “regulation 18 or 26C, as the case may be”;
- (c) in the definition of “initial consultation report” (“*adroddiad ymgynghori cychwynnol*”), for “16”, substitute
“16A or regulation 26A(4), whichever is required”;
- (d) in the definition of “LDP documents” (“*dogfennau CDLI*”), after paragraph (d), insert—
 - “(e) any relevant review report;
 - (f) any candidate sites register”;
- (e) in the definition of “pre-deposit proposals documents” (“*dogfennau cynnigion cyn-adneuo*”), after “made explicit”, insert “the candidate sites register and any review report.”;
- (f) omit the definitions of “site allocation policy” (“*polisi dyrannu safle*”) and “site allocation representation” (“*sylw ar ddyraniad safle*”);
- (g) in the definition of “specific consultation bodies” (“*cyrff ymgynghori penodol*”)—
 - (i) for “(i) to (viii)”, substitute “(a) to (g)”; and
 - (ii) before paragraph (c) insert
“(b) Network Rail Infrastructure Limited.”;
- (h) at the appropriate places in alphabetical order insert—
 - “(i) candidate sites register” (“*cofrestr y safleoedd ymgeisiol*”) means the list of sites prepared in accordance with regulation 14(4) or 26A(8).”
 - “(ii) emerging LDP” (“*CDLI sydd wrthi’n ymddangos*”) means—
 - (a) a document proposed as an LDP, made available pursuant to regulations 15, 17 or 22(1);

- (b) dogfen a gynigiwyd fel adolygiad i CDLI a roddwyd ar gael yn unol â rheoliadau 15, 17, 22(1) neu 26B,

nad yw yn y naill achos a'r llall wedi ei fabwysiadu gan yr ACLI o dan adran 67, na'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 65 neu 71(4);”

“(iii) ystyr “adroddiad adolygu” (“review report”) yw adroddiad a baratowyd yn unol ag adran 69 neu reoliad 41(4).”

(3) Yn lle paragraff (1) o reoliad 3 (cwmpas y rheoliadau), rhodder—

“(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas ag adolygu CDLI i'r graddau y maent yn gymwys i baratoi CDLI, ac eithrio—

- (a) rheoliadau 5 a 7 nad ydynt yn gymwys i adolygu CDLI;
- (b) pan fo ACLI yn mynd rhagddo yn unol â Rhan 4A, nid yw Rhan 4 yn gymwys heblaw i'r graddau a bennir yn Rhan 4A;
- (c) pan fo ACLI yn cynnig adolygu ei CDLI ac yn mynd ati yn unol â Rhan 4, nid yw Rhan 4A yn gymwys.”

(4) Yn rheoliad 5 (paratoi cynllun cynnwys cymunedau), yn lle “adran 63(3)(a)”, rhodder “adran 63(7)(a)”.

(5) Yn rheoliad 9 (cytundebau cyflawni)—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “ac, yn ychwanegol, rhaid iddo-” hyd at ddiwedd is-baragraff (b), rhodder “a rhaid iddo gael ei gymeradwyo trwy benderfyniad yr ACLI ac yna'i gyflwyno i Weinidogion Cymru ar gyfer eu cytundeb”;
- (b) yn lle paragraff (4), rhodder “Hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru yn cytuno i'r cytundeb cyflawni, rhaid i'r ACLI beidio â chymryd unrhyw gamau o dan reoliad 15 na 26A”;
- (c) ar ôl paragraff 9(4), mewnosoder—

“(4A) Rhaid i'r ACLI hysbysu—

 - (a) y cyrff ymgynghori penodol; a
 - (b) y cyrff ymgynghori cyffredinol hynny a ystyrir yn briodol gan yr ACLI,

cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi i adolygiad i gytundeb cyflawni gael ei gytuno neu y bernir iddo gael ei gytuno o dan baragraff (3).”; a

(d) ar ôl paragraff (5), mewnosoder—

“(6) Nid oes angen i'r ACLI gydymffurfio â gofyniad penodol ei gynllun cynnwys cymunedau os oes ganddo achos rhesymol i gredu nad yw'n debygol o ragfarnu cyfle

- (b) a document proposed as a revision of an LDP made available pursuant to regulations 15, 17, 22(1) or 26B,

in either case which has not been adopted either by the LPA under section 67, or approved by the Welsh Ministers under section 65 or 71(4);”

“(iii) “review report” (“*adroddiad adolygu*”) means a report prepared pursuant to section 69 or regulation 41(4).”

(3) For paragraph (1) of regulation 3 (scope of regulations), substitute—

“(1) These Regulations have effect in relation to the revision of an LDP as they apply to the preparation of an LDP, except—

- (a) regulations 5 and 7 which do not apply to the revision of an LDP;
- (b) where an LPA proceeds in accordance with Part 4A, Part 4 does not apply other than to the extent specified in Part 4A;
- (c) where an LPA proposes to revise its LDP and proceeds in accordance with Part 4, Part 4A does not apply.”

(4) In regulation 5 (community involvement scheme preparation), for “section 63(3)(a)”, substitute “section 63(7)(a)”.

(5) In regulation 9 (delivery agreement)—

- (a) in paragraph (1), for “must, in addition, be-” to the end of sub-paragraph (b), substitute “must be approved by resolution of the LPA and then submitted to the Welsh Ministers for their agreement.”;
- (b) for paragraph (4), substitute “Until such time as the Welsh Ministers agree the delivery agreement, the LPA must not take any steps under regulation 15 or 26A.”;
- (c) after paragraph 9(4), insert—

“(4A) The LPA must notify—

 - (a) the specific consultation bodies; and
 - (b) such of the general consultation bodies as the LPA considers appropriate,

as soon as reasonably practicable after a revision to a delivery agreement is agreed or deemed to be agreed under paragraph (3).”; and

(d) after paragraph (5), insert—

“(6) The LPA does not need to comply with a particular requirement of its community involvement scheme if it has reasonable grounds to believe that it is not likely to

unrhyw berson i fod yn rhan o roi swyddogaethau'r ACLl ar waith o dan Ran 6 o'r Ddeddf os nad yw'n cydymffurfio â'r gofyniad hwnnw."

(6) Yn rheoliad 10 (argaeledd cytundebau cyflawni), ym mharagraff (2), yn lle "CDLl", rhodder "ACLl".

(7) Yn rheoliad 11 (ffurf a chynnwys cynllun datblygu lleol) ym mharagraff (b)—

(a) yn is-baragraff (i), hepgorer "a"; a

(b) yn lle is-baragraff (ii), rhodder—

"(ii) dyddiad y daw'r cyfnod y paratowyd y CDLl gan yr ACLl ar ei gyfer i ben; a

(iii) pan fo'n CDLl sydd wrthi'n ymddangos, y cam o'r broses a gyrhaeddwyd a dyddiad ei gyhoeddi."

(8) Yn rheoliad 13 (CDLl: materion ychwanegol y dylid rhoi sylw iddynt), yn lle paragraff (dd), rhodder "unrhyw gynllun morol a fabwysiadwyd ac a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan Ran 3 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(1) sy'n effeithio ar unrhyw ran o ardal yr ACLl;"

(9) Cyn "RHAN 4 Y WEITHDREFN AR GYFER CYNLLUN DATBLYGU LLEOL", mewnosoder—

"**13A.** Pan fo ACLl yn cynnig adolygu ei CDLl a phan yr ymddengys iddo nad yw'r materion dan sylw yn ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau ymgymryd â'r weithdrefn lawn ar gyfer paratoi fersiwn ddiwygiedig o CDLl fel a bennir yn rheoliadau 14 i 16, caiff fynd ati yn unol â Rhan 4A yn hytrach na Rhan 4."

(10) Yn rheoliad 14—

(a) ail-rifer y paragraff presennol yn is-baragraff (1); a

(b) ar ôl is-baragraff (1), mewnosoder—

"(2) Cyn bod ACLl yn cydymffurfio â rheoliad 15, rhaid iddo wneud cais am enwebiadau ar gyfer safleoedd y cynigir eu cynnwys yn y CDLl.

(3) Rhaid i'r ACLl—

(a) ddatgan y cais am enwebiadau ar ei wefan a thrwy gyfryw ddulliau eraill y mae'n eu hystyried yn briodol; a

(b) datgan yn ei gais y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i'r ACLl fod wedi cael y cyfryw enwebiadau.

prejudice any person's opportunity to be involved in the exercise of the LPA's functions under Part 6 of the Act if it does not comply with that requirement."

(6) In regulation 10 (availability of a delivery agreement), in paragraph (2), for "LDP", substitute "LPA".

(7) In regulation 11 (form and content of LDP), in paragraph (b)—

(a) in sub-paragraph (i), omit "and"; and

(b) for sub-paragraph (ii), substitute—

"(ii) the date of the expiry of the period in relation to which the LDP has been prepared by the LPA; and

(iii) where it is an emerging LDP, the stage reached and date of its publication."

(8) In regulation 13 (LDP: additional matters to which regard to be had), for paragraph (f), substitute "any marine plan adopted and published by the Welsh Ministers under Part 3 of the Marine and Coastal Access Act 2009(1) which affects any part of the LPA's area;"

(9) Before "PART 4 LDP PROCEDURE", insert—

"**13A.** Where an LPA proposes to revise its LDP and it appears to it that the issues involved are not of sufficient significance to justify undertaking the full procedure for preparing a revision to an LDP as set out in regulations 14 to 16, they may proceed in accordance with Part 4A instead of Part 4."

(10) In regulation 14—

(a) renumber the existing paragraph as sub-paragraph (1); and

(b) after sub-paragraph (1), insert—

"(2) Before an LPA complies with regulation 15, it must request nominations for sites proposed to be included in the LDP.

(3) The LPA must—

(a) publish the request for nominations on its website and by such other means as it considers appropriate; and

(b) state in its request the date by which such nominations must be received by the LPA.

(4) Rhaid i'r ACLI baratoi rhestr o'r holl safleoedd a enwebir.

(5) Rhaid i'r ACLI ystyried unrhyw safleoedd a enwebir cyn penderfynu ar gynnwys CDLI a adneuir yn unol â rheoliad 17."

(11) Yn rheoliad 15 (ymgyngori â'r cyhoedd cyn adneuo)—

- (a) hepgorer "ac" ar ôl paragraff (c)(iv); a
- (b) hepgorer paragraff (ch).

(12) Ar ôl rheoliad 16, mewnosoder—

"Adroddiad ymgyngori cychwynnol

16A. Rhaid i'r ACLI baratoi adroddiad y mae'n rhaid iddo ddatgan—

- (a) pa gyrff y mae wedi ymgysylltu neu ymgyngori â hwy neu wedi eu hysbysu yn unol â rheoliadau 14 a 15;
- (b) crynodeb o'r prif faterion a godwyd yn ystod yr ymgysylltiadau, ymgyngoriadau a hysbysiadau hynny, a'r ymatebion;
- (c) mewn perthynas â'r CDLI i'w adneuo yn unol â rheoliad 17—
 - (i) sut yr aethpwyd i'r afael â'r prif faterion hynny; a
 - (ii) i ba raddau yr aethpwyd i'r afael â'r ymatebion hynny;
- (d) cyfanswm y sylwadau a ddaeth i law yn unol â rheoliad 16; ac
- (e) unrhyw wyriad o'r cynllun cynnwys cymunedau."

(13) Yn rheoliad 17 (adneuo cynigion)—

- (a) ym mharagraff (a), yn lle "materion CDLI", rhodder "materion adneuo";
- (b) ym mharagraff (c)(vi), hepgorer "a"; ac
- (c) hepgorer paragraff (ch).

(14) Yn lle rheoliad 18 (sylwadau ar gynigion adneuo cynllun datblygu lleol), rhodder—

"Caiff person gyflwyno sylwadau am CDLI drwy eu hanfon i'r cyfeiriad ac at y person (os oes un) a bennir yn y materion adneuo, o fewn y cyfnod o 6 wythnos, gan ddechrau ar y diwrnod y bydd yr ACLI yn cydymffurfio â rheoliadau 17(a) ac (c)."

(15) Yn rheoliad 19 (ymdrin â sylwadau: adneuo), hepgorer paragraff (1).

(4) The LPA must prepare a list of all the sites nominated.

(5) The LPA must consider any sites nominated before determining the content of the LDP deposited in accordance with regulation 17."

(11) In regulation 15 (pre-deposit public consultation)—

- (a) omit "and" after paragraph (c)(iv), ; and
- (b) omit paragraph (d).

(12) After regulation 16, insert—

"Initial consultation report

16A. The LPA must prepare a report which must set out—

- (a) which bodies it has engaged, notified or consulted pursuant to regulations 14 and 15;
- (b) a summary of the main issues raised in, and responses from, those engagements, notifications and consultations;
- (c) in relation to the LDP to be deposited in accordance with regulation 17—
 - (i) how those main issues have been addressed; and
 - (ii) the extent to which those responses have been addressed;
- (d) the total number of representations received pursuant to regulation 16; and
- (e) any deviation from the community involvement scheme."

(13) In regulation 17 (deposit of proposals)—

- (a) in paragraph (a), for "LDP matters", substitute "deposit matters";
- (b) in paragraph (c)(vi), omit "and"; and
- (c) omit paragraph (d).

(14) For regulation 18 (representations on deposit proposals of LDPs), substitute—

"A person may make representations about an LDP by sending them to the address and person (if any) specified in the deposit matters, within the period of 6 weeks, starting on the day on which the LPA has complied with regulation 17(a) and (c)."

(15) In regulation 19 (handling of representations: deposit), omit paragraph (1).

(16) Hepgorer rheoliadau 20 (ymdrin â sylwadau: sylwadau ar ddyraniad safle) a 21 (sylwadau am sylw ar ddyraniad safle).

(17) Yn rheoliad 22 (cyflwyno cynllun datblygu lleol i'r Cynulliad Cenedlaethol)—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “rheoliadau 18 ac 21”, rhodder “rheoliad 18”;
- (b) yn is-baragraff (2)(c)(i) yn lle “rheoliadau 14, 15, 17 ac 20”, rhodder “rheoliadau 14, 15 a 17”;
- (c) ar ddechrau is-baragraff (2)(c)(iii), mewnosoder “mewn cysylltiad â'r prif faterion a godwyd o dan reoliad 16,”;
- (d) yn is-baragraff (2)(c)(iv), yn lle “rheoliadau 16, 18 ac 21”, rhodder “rheoliad 16 a 18”;
- (e) yn is-baragraffau (2)(c)(v) a (vi), yn lle “rheoliadau 18 a 21”, rhodder “rheoliad 18”;
- (f) ym mharagraff (2), ar ôl is-baragraff (c), mewnosoder—
 - “(ca) unrhyw adroddiad adolygu perthnasol;
 - (cb) unrhyw gofrestr safleoedd ymgeisiol”;
- (g) ym mharagraff (ch), yn lle “rheoliadau 18 a 21”, rhodder “rheoliad 18”;
- (h) hepgorer paragraff (5)(b).

(18) Yn rheoliad 23 (archwiliad annibynnol)—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “cyn dechrau cynnal archwiliad annibynnol o dan adran 64,”; rhodder “cyn dechrau'r gwrandawriad cyntaf o dan adran 64(6),”;
- (b) yn is-baragraff (1)(b), yn lle “neu 21 o'r materion hynny; ac”, rhodder “o'r materion hynny.”;
- (c) hepgorer is-baragraff (1)(c);
- (d) yn is-baragraff (2)(a), yn lle “archwiliad”, rhodder “gwrandawriad”; ac
- (e) ym mharagraff (3), yn lle “rheoliadau 18 ac 21”, rhodder “rheoliad 18”.

(19) Yn rheoliad 25 (mabwysiadu CDLI)—

- (a) ym mharagraff (2), yn lle “Pan fydd yr ACLI yn mabwysiadu CDLI, rhaid iddo yr un pryd,” rhodder “Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i ACLI fabwysiadu CDLI, rhaid iddo—”;
- (b) hepgorer is-baragraff (2)(c); ac
- (c) ar ôl paragraff (2), mewnosoder—

(16) Omit regulations 20 (handling of representations: site allocation representations) and 21 (representations on a site allocation representation).

(17) In regulation 22 (submission of LDP to the National Assembly)—

- (a) in paragraph (1), for “regulations 18 and 21”, substitute “regulation 18”;
- (b) in sub-paragraph (2)(c)(i) for “regulations 14, 15, 17 and 20”, substitute “regulations 14, 15 and 17”;
- (c) at the beginning of sub-paragraph (2)(c)(iii), insert “in respect of the main issues raised under regulation 16,”;
- (d) in sub-paragraph (2)(c)(iv), for “regulation 16, 18 and 21”, substitute “regulations 16 and 18”;
- (e) in sub-paragraphs (2)(c)(v) and (vi), for “regulations 18 and 21”, substitute “regulation 18”;
- (f) in paragraph (2), after sub-paragraph (c), insert—
